Cofnodion **CYFARFOD y CYNGOR** a gynhaliwyd yn hybrid nos Fercher, 20 Mawrth 2024, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, Ms S. Fleming, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

**129. AGOR Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Arweiniodd Caplan y Maer, y Parchedig Helen Gheorghiu Gould, bawb a oedd yn dymuno cymryd rhan mewn gweddi.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Miss S. L. Roberts a D. Simmons.

**130. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion canlynol cyfarfodydd y cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 21 Chwefror 2024 - Cofnodion rhifau 119-128

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 21 Chwefror 2024 - Cofnodion rhifau 43-45

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd S. Feeney a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 6 Mawrth 2024 - Cofnodion rhifau 77-83

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau i'w gweithredu.*

**131. ADRODDIAD Y MAER**

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu hi a'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf. Crybwyllodd noson Gwobrau Busnes Blynyddol Ardal Gwella Busnes y Rhyl (Rhyl BID). Cafwyd noson bleserus ac roedd yn wych gweld cymaint o fusnesau'n bresennol ac yn cael cydnabyddiaeth.

Soniodd y Maer hefyd am gyflwyno llythyr o werthfawrogiad i'w Chadet Anrhydedd yn noson Adran Cadetiaid y Môr y Rhyl. Noson arall a fwynhawyd yn fawr.

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at y Cyngerdd Elusennol er budd Wcràin a'r te prynhawn 'Help Llaw i'r Wcràin' a drefnwyd gan griw Llinell Bywyd Plant Chernobyl. Roedd y ddau'n ddigwyddiadau ardderchog.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 132. ATODLEN TALIADAU RHEOLAIDD (ATODLEN A) YN 2024/25

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion atodlen y taliadau rheolaidd yn 2024/25 ac yn gofyn am awdurdod i wario ar yr eitemau a restrwyd.

| Cyflenwr a Disgrifiad | Swm £ | Amlder |
|---|---|---|
| Cyflogau net staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,800 | Misol |
| Didyniadau o'r cyflogau i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,500 | Misol |
| Cronfa Bensiwn Clwyd Cyngor Sir y Fflint | 3,500 | Misol |
| Cyngor Sir Ddinbych – y Dreth Gyngor (10 mis) | 800 | Misol |
| Ffioedd bancio HSBC | 15 | Misol |
| Gwasanaethau ffôn a rhyngrwyd BT | 1,950 | Chwarterol |
| Tesco Mobile – ffonau symudol | 64 | Misol |
| Cyngor ar Fudd-daliadau – Swyddog Apeliadau | 1,250 | Misol |
| Cyngor ar Bopeth – Swyddog Tlodi Tanwydd | 2,250 | Chwarterol |
| Cyngor Sir Ddinbych – benthyciad SC2 | 32,037 | 3 taliad y flwyddyn |
| Cyngor Sir Ddinbych – Partneriaeth Camerâu Teledu Cylch Cyfyng | 15,000 | Blynyddol |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Atodlen A ac awdurdodi gwario ar yr eitemau a restrwyd yn Atodiad A.*

## 133. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B (rhestr taliadau nad ydynt yn rhai rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a gyflwynwyd gan Glerc y Dref.

Cynghorodd Clerc y Dref y cynhyrchwyd Atodlen B ddiwygiedig i gynnwys taliad ychwanegol o £75.88 am Gymorth i'r Maer.

| Taleb Rhif: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1801 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | 314.08 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1802 | Cyng. J. L. McAlpine | Cymorth i'r Maer | 75.88 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£389.96** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a llofnodi'r taliadau gan ddau gynghorydd.*

**134. ADRODDIAD SICRWYDD 2023/24 CADEIRYDD YR IS-BWYLLGOR ASESU RISGIAU**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad blynyddol Cadeirydd yr Is-bwyllgor (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y gwaith a wnaed a'r gwiriadau ar hap a wnaed, fel sy'n ofynnol yn rheoliadau ariannol y Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**135. ADOLYGIAD RISGIAU BLYNYDDOL 2023/24 A BLAEN GYNLLUN 2024/25**

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a ganslwyd, cyfeiriodd Clerc y Dref at y dogfennau uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), yr oedd yn ofynnol eu cyflwyno gerbron y Cyngor bob blwyddyn i'w cymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwho'r Adolygiad Risgiau 2023/24 a Blaen Gynllun 2024/25.*

**136. EITEM GAN AELOD: CYFLWYNO TALIADAU PARCIO YN Y MARINE LAKE**

Cynghorodd y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ei bod wedi bod yng nghyfarfod Fforwm Defnyddwyr y Marine Lake ddoe, fel cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y grŵp, ble cafodd yr uchod ei drafod yn fanwl.

Roedd y drafodaeth yn cynnwys siom y Fforwm fod y taliadau i'w cyflwyno mor fyr rybudd a heb ymgynghori â grwpiau defnyddwyr y llyn.

Adroddodd y Cynghorydd Chard ei bod wedi holi'r Harbwr Feistr (a oedd yn bresennol yn y cyfarfod) a allai aelodau'r Fforwm ddefnyddio cardiau parcio tra'r oeddynt yn gwneud eu sesiynau casglu sbwriel? Dywedodd y byddai'n trefnu hyn, a dywedodd hefyd, mewn neges e-bost a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Chard fore heddiw, y gellid defnyddio hawlenni arhosiad hir a hawlenni'r traeth ym maes parcio'r Marine Lake. Ychwanegodd yr Harbwr Feistr y byddai arian a gasglwyd o'r taliadau parcio yn cael ei fuddsoddi yn y llyn ac y byddai gwefan Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei diweddaru'n fuan i nodi'r holl wybodaeth berthnasol am y maes parcio.

Dywedodd y Cynghorydd Chard ei bod hi'n anhapus iawn y byddai pobl gyffredin yn ymweld â'r llyn yn eu car yn gorfod talu tâl am wneud hynny yn awr.

Dywedodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ei bod hi a'i chyd-gynghorydd ward, y Cynghorydd A. R. James, wedi bod yn cyfathrebu gydag

Ysgrifennydd Fforwm Defnyddwyr y Marine Lake a'r adran berthnasol yn y Cyngor Sir a'u bod hwythau wedi mynegi eu siom ynghylch y diffyg ymgynghori â grwpiau defnyddwyr. Dywedodd y Cynghorydd Butterfield ei bod wedi gofyn a ellid rhoi hawlenni parcio i wirfoddolwyr y trên bach, y gwersi hwylio a Chadetiaid y Môr i'w galluogi i barhau gyda'u gwaith cymunedol pwysig yn ac o gwmpas y llyn, ac roedd yn aros am ateb.

Soniodd y Cynghorydd K. R. Jones am ei siom hefyd fel rhywun a oedd ar lân y llyn bron bob bore, yn mwynhau'r ardal a'r ysbryd gymunedol gref yno.

Dywedodd y Cynghorydd Jones fod gwedudalen y Marine Lake ar wefan Cyngor Sir Ddinbych yn nodi fod 175 o fannau parcio yno, er mai dim ond 35 sydd yno mewn gwirionedd (32 + tri man parcio i'r anabl). Felly roedd y Cynghorydd Jones yn ystyried a oedd Cyngor Sir Ddinbych yn disgwyl mwy o refeniw parcio nag a fyddai'n cael ei wireddu?

Roedd y Cynghorydd Jones o'r farn y byddai codi tâl ar bobl i barcio wrth y llyn yn ychwanegu at y problemau parcio a oedd yn digwydd eisoes ar y ffyrdd o amgylch y safle, gan y byddai mwy o bobl yn chwilio am fannau parcio am ddim ar y stryd fel dewis amgen.

Cynghorodd y Cynghorydd A. R. James y byddai ef a'r Cynghorydd Butterfield yn cyfarfod gyda Mr Paul Jackson, Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd Cyngor Sir Ddinbych, yr wythnos nesaf i drafod y mater, a dywedodd y byddent yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *y byddai'r Cynghorwyr Butterfield a James yn trafod yr holl bryderon a godwyd gan yr aelodau gyda Mr Jackson ac yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.*

## 137. <u>EITEM GAN AELOD: CYLLID Y GRONFA FFYNIANT BRO</u>

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE at y cyhoeddiad diweddar gan Ganghellor y Trysorlys:

"Bydd tref y Rhyl yn derbyn £20 miliwn dros 10 mlynedd drwy'r Cynllun Tymor Hir i Drefi, gan roi sicrwydd tymor hir i'r dref gyflawni prosiectau wedi'u seilio ar anghenion a blaenoriaethau lleol."

Cynghorodd y Cynghorydd Butterfield y byddai'r arian yn cael ei ddosbarthu gan Gyngor Sir Ddinbych ac y bwriadwyd sefydlu grŵp i oruchwylio gwario'r arian.

Awgrymodd y Cynghorydd Butterfield y dylai'r cyngor tref fod yn barod gyda chynrychiolydd wedi'i benodi i fod yn aelod o'r grŵp, petai hynny'n bosibl, ac enwebodd y Cynghorydd A. J. Rutherford.

Awgrymodd y Cynghorydd Butterfield hefyd y dylid cynnal cyfarfod ar y cyd rhwng y Cyngor Tref a Grŵp Aelodau Cyngor Sir Ardal y Rhyl i drafod y cyllid a sut y bydd yn cael ei ddefnyddio a'i weinyddu.

***<u>PENDERFYNWYD</u>:***

(i) *y byddai Clerc y Dref yn cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i gynnig cynnal cyfarfod ar y cyd yn Siambr y Cyngor am 6pm ar nos Fercher neu, os nad oedd hyn yn bosibl, i ofyn am gynnal y cyfarfod yn lleoliad arferol cyfarfodydd Grŵp Aelodau Cyngor Sir Ardal y Rhyl, sef Tŷ Russell.*

(ii) *Penodwyd y Cynghorydd A. J. Rutherford fel cynrychiolydd y cyngor tref i fod yn aelod o'r grŵp trefnu, petai hynny'n bosibl.*

**138. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**139. ADRODDIAD YR IS-BWYLLGOR ASESU RISGIAU**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad cyfrinachol yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau (a ddosbarthwyd drwy neges e-bost ar wahân i'r agenda) yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar yr hyn a ddeilliodd o gyfarfod gyda chynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych a thîm negodi'r cyngor tref.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad ac i'r tîm negodi barhau i gyfarfod gyda chynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych i sicrhau'r deilliant gorau i'r Cyngor Tref.*

**140. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..